



St David's  
Coleg Catholig Dewi Sant  
Catholic Sixth Form College



# Y RHAGLEN ANRHYDEDD



[cymraeg.stdavidscollege.ac.uk](http://cymraeg.stdavidscollege.ac.uk)

[twitter.com/stdavidscoll](https://twitter.com/stdavidscoll)

[facebook.com/stdavidscatholiccollege](https://facebook.com/stdavidscatholiccollege)

[instagram.com/stdavidscollege](https://instagram.com/stdavidscollege)

# CYFLWYNIAD

---

**W**edi ei sefydlu ym 1987, Coleg Catholig Dewi Sant yw'r unig goleg chweched dosbarth Catholig yng Nghymru. Coleg Dewi Sant yw'r unig sefydliad sydd wedi ymrwymo'n llwyr i addysg a chynnydd bobl ifanc o 16 i 19 oed yng Nghaerdydd.

Er mwyn ceisio darparu ar gyfer anghenion unigol ein dysgwyr, rydym wedi sefydlu rhaglen a gynlluniwyd ar gyfer myfyrwyr sy'n dangos doniau academaidd penodol yn unig. Bydd y rhain yn fyfyrwyr sy'n dangos diddordeb tu hwnt i'r terfynau arferol yr ystafell ddosbarth, ac awydd i archwilio'r mathau o gwestiynau a fydd yn ehangu eu barn byd ac yn gwella eu gallu i gymryd rhan mewn sgwrs academaidd.

Mae'r rhaglen anrhydedd wedi gweld llawer o'i myfyrwyr yn mynd ymlaen i ddarlennu ar gyfer graddau mewn rhai o brifysgolion mwyaf blaenllaw Prydain, ym mhob pwnc o Hanes Celf i Sŵleg. Mae ein record dros y blynyddoedd o helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial llawn wedi'u cydnabod a'u canmol gan brifysgolion, arolygwyr, rhieni a myfyrwyr fel ei gilydd.

Mae'r prospectws yma yn amlinellu cynnwys y rhaglen, manylion beth gall myfyrwyr disgwyl cael allan o'r rhaglen, yn nodi gofynion mynediad, a rhoi manylion ar sut i wneud cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, croeso i chi gysylltu â ni.

# TROSOLWG Y RHAGLEN

---

Fel aelod o'r rhaglen anrhydedd, bydd myfyriwr yn dechrau drwy astudio pedwar cwrs uwch gyfrannol yn dilyn cyngor gan staff sydd yn brofiadol wrth arwain myfyrwyr tuag at y nodau maent wedi eu gosod ar gyfer eu hunain.

Yn ychwanegol at y pynciau academiaidd hyn, bydd myfyrwyr yn cynnal eu sgiliau hanfodol, ynghyd â chwrs mewn diwinyddiaeth systematig ar lefel Prifysgol yn y flwyddyn gyntaf. Cynigir nifer o gyfleoedd ar gyfer gwaith estynedig, gan gynnwys darlithoedd Prifysgol, clybiau allgyrsiol, a gwirfoddoli: yn benodol er mwyn wella profiad myfyrwyr anrhydedd. Mae'r Theatr Anrhydedd, sydd ar wahân i'r prif adeilad Coleg, yn meithrin datblygiad academiaidd pellach drwy ddarparu ystafell darlith sy'n dyblygu'r

amgylchedd dysgu Prifysgol, yn ogystal â llyfrgell adnoddau, lle gall myfyrwyr treulio amser yn astudio'n dawl neu'n trafod syniadau y maent eisiau rannu â'u cyfoedion.

Yn olaf, mae arbenigedd y staff anrhydedd mewn ceisiadau Prifysgol i lefydd megis Rhydychen a Chaergrawnt, ynghyd â rhaglenni cystadleuol iawn fel meddygaeth, deintyddiaeth ac astudiaethau milfeddygol, yn golygu bod myfyrwyr anrhydedd yn derbyn y cyngor UCAS gorau. Mae rhan o'r cyngor yma yn cynnwys teithiau gwahanol gyda myfyrwyr i Rydychen a Chaergrawnt, ac anogaeth i ymestyn y myfyrwyr eu hunain gyda'r prifysgolion a'r cyrsiau sydd o ddiddordeb iddynt fwyaf.







"Gan fy mod i'n dod o ardal sydd â lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ni ddisgwyliais erioed y byddwn yn gallu gwneud cais i Rydychen. Diolch i gymorth gan y staff yng Ngholeg Dewi Sant, yn enwedig ar y rhaglen anrhydedd, yr wyf wedi cael yr hyder i wneud hynny ac yn llwyddiannus i ennill lle."

**Bethan Broad,**  
**Myfyriwr Rhydychen\***

# DEWISIADAU PWNC

---

**E**in cred yw bod dealltwriaeth myfyrwyr o unrhyw bwnc yn ymestyn pan maent yn cael eu cyflwyno i wreiddiau'r pwnc hwnnw. Dyma sydd wrth wraidd ein hawydd i ddarparu'r cynnig cwricwlwm ehangaf bosibl. O ganlyniad, anogir myfyrwyr i ddewis pedwar pwnc uwch gyfrannol, sydd wedyn yn cael eu cefnogi a'u dyfnhau drwy edrych ar darddiad, geirdarddiad, a syniadau sylfaenol ochr yn ochr â'u hastudiaethau confensiynol.





# Y SYLFAEN DIWINYDDOL

---

**Y**mhell o fod yn gyfyngedig a chrefyddol, mae astudio diwinyddiaeth yn golygu astudio popeth. Cyfeirir yn glasurol fel 'Brenhines y Gwyddorau', diwinyddiaeth oedd y gorchwyl eithaf, a chyrraedd gwirionedd diwinyddol oedd yr union bwrpas o astudiaeth.

Mae myfyrwyr ar y rhaglen anrhydedd wedi'u meddiannu yn aml pan wynebant ehangder y posibilïadau sy'n gynhenid mewn diwinyddiaeth am y tro gyntaf: astudiaeth feirniadol o destunau; dealltwriaeth hanes o'r hynafol i heddiw; athroniaeth a sut y mae wedi llunio ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas ni; iaith, a sut mae ei llywio cynnwys y syniadau.

Am y rheswm hwn, yr ydym wedi croesawu'r cyfle i ddarparu'r cyfle i fyfyrwyr dod ar draws y traddodiad deallusol gorllewinol drwy gyfrwng diwinyddiaeth, rhywbeth y byddant yn ei wneud ar lefel Prifysgol yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr y rhaglen anrhydedd yn cael profiad o ddarlithoedd, o gymryd nodiadau, ymchwil, ac asesu sy'n debycach i'r her academiaidd fydd yn eu hwynebu pan fyddant yn gadael coleg. Yn y pen draw, fodd bynnag, byddant yn ennill gwybodaeth a fydd yn hwyluso eu profiad o bopeth, o gemeg i lenyddiaeth, o gelf i fathemateg.

# DISGWYLIADAU

---

- 1 Dylai myfyrwyr ar y Rhaglen Anrhydedd disgwyl cael ei herio ar y lefel uchaf yn academiaidd, yn gymdeithasol ac yn athronyddol.
- 2 Dylai myfyrwyr ar y Rhaglen Anrhydedd disgwyl cael cyngor addysg ynghylch gwneud cais i brifysgolion gorau'r byd.
- 3 Dylai myfyrwyr ar y Rhaglen Anrhydedd disgwyl profiad o ymgeisio i'r brifysgol well er mwyn ateb gofynion prifysgolion Grŵp Russell.
- 4 Dylai pob myfyriwr yng Ngholeg Dewi Sant disgwyl derbyn gofal, cyngor, eu haddysgu, a'u thrin gyda'r parch y maent yn haeddu fel myfyriwr mewn Coleg Catholig, ac yn bwysicaf oll, fel plentyn Duw.



"Mae wedi caniatáu i mi feddwl yn ddyfnach, i holi fy hunan a fy meddyliau mewn modd nad oeddwn i erioed wedi ei brofi cyn hynny."

# CYFARWYDDWYR

Mae Mr Grindulis yn credu mewn ymagwedd gyfannol at wybodaeth ac arfogi myfyrwyr â thrylwyrdd academiaidd ac annibyniaeth meddwl angenrheidiol i addysgu eu hunain yn effeithiol yn yr oes hon o dirlawnder gwybodaeth, sy'n sicrhau y gall meddyliau chwilfrydig bodloni eu hunain. Gyda gradd anrhydedd mewn Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg, mae e'n ymgorffori cymdeithas, ein strwythurau cymhelliant ac egwyddorion sylfaenol sy'n arwain y ddau i mewn i'r rhaglen anrhydedd, gyda ffocws ar sut y gallwn gyfrannu'n gadarnhaol o fewn gymuned byd-eang sy'n newid yn gyflym ochr yn ochr â chwilio am y celfyddydau, datblygiadau yn y Gwyddorau Dynol a ffisegol a newidiadau geowleidyddol.

Gan annog rhagweithioldeb wrth fynd i'r afael â phryderon lleol a rhyngwladol, mae Mr Grindulis yn cynnig ei brofiad

o'r tu allan i'r byd academiaidd, ar ôl gweithio gyda Chomisiwn Sbaeneg Cymorth Ffoaduriaid yn Seville, lle mae'n rhaid gweithredu egwyddorion a syniadau i ategu eu hymgysylltiad damcaniaethol. Gall gynnig persbectif unigryw i fyfyrwyr ar enghraifft o fudo torfol mwyaf mewn hanes, gan adrodd ar beryglon a wynebwr gan y rhai sy'n ffoi rhag parthau gwrthdaro a gormes yn ogystal â chipolwg ar heriau pendant sy'n wynebu ffoaduriaid sy'n cyrraedd Ewrop.

Roedd wedi derbyn addysg ryngwladol yng Ngholeg y Byd Unedig Red Cross Nordig ac o ganlyniad mae ei galluoedd iaith a'i gariad am lenyddiaeth o bob cwr o'r byd yn sicrhau bod dealltwriaeth ryng-ddiwylliannol a heddwch yn cael ei annog yn effeithiol yn wyneb dulliau ynysig, lled-genedlaetholgar o eowleidyddiaeth.



# EICH CWRS

---

**M**ae gan Dr Constant gefndir ymchwil mewn athroniaeth a chyfoeth o brofiad addysgu nifer o bynciau cwricwlwm, ar lefel chweched dosbarth a gradd. Gan ganolbwyntio ar resymeg a meddwl yn gritigol, mae'n hyrwyddo y math o sgiliau meddwl uwch yn y dosbarth sy'n cael eu werthfawrogi gan gyflogwyr a phrifysgolion cystadleuol. Gan bwyo ar ei arbenigedd athronyddol ac ar ymchwil addysg, mae Dr Constant yn awyddus i feithrin 'cymuned ymholgar' yn y gwersi, lle bydd myfyrwyr yn teimlo'n gysurus i roi cynnig ar syniadau mewn cyd-destun trafodaeth, sy'n parchu eraill, ar daith ar y cyd o ddarganfyddiadau academiaidd.

Yn y Rhaglen Anrhydedd, cyflawnir hyn drwy amrywiol dulliau a phynciau, yn bennaf drwy ddefnyddio dull rhyng-ddisgyblaethol o fynd ati, lle cymhellir

diddordebau pynciau gwahanol i ryngweithio. Archwilir gwerth gwyddoniaeth a mathemateg yng nghyd-destun y dyniaethau ac archwilir pwysigrwydd cwestiynau 'dyneiddiol' a moesegol yng nghyd-destun y gwyddorau.

O ran hyn, mae Dr Constant yn cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu amrediad o sgiliau, o siarad cyhoeddus i gyflwyniadau, gwaith grŵp, ysgrifennu traethodau, dadansoddi dadleuon a meddwl dargyfeiriol. Cyflawnir hyn drwy daclo ystod o bynciau sydd ddim fel arfer yn y cwricwlwm, megis y gwahaniaeth rhwng arbrofion 'real' a 'meddwl', gwneud penderfyniadau a 'dewisiadau trawsffurfiol', mathau o gasgliadau a strategaethau ar gyfer meddwl yn gritigol a dadansoddi dadleuon.



"Roedd y gefnogaeth  
ychwanegol a gefais gyda  
fy natganiad personol  
yn ddefnyddiol iawn. Ni  
chredaf y byddaf wedi cael  
lle yn Rhydychen heb  
hynny."

Jimmy Webster,  
Myfyriwr Rhydychen\*

# SUT I YMGEISIO

---

**O**s hoffech gael eich ystyried ar gyfer y Rhaglen Anrhydedd, nodwch hyn ar eich ffurflen gais Coleg. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais ar wahân ar gyfer y Rhaglen Anrhydeddau. Mae hyn ar gael ar ein gwefan, yn y cyfweiliad, neu gellir ei anfon atoch ar gais. Yna, caiff aelodau potensial eu rhestru ar y rhestr fer ym mis Awst yn seiliedig ar eu graddau TGAU a'u cais. Yna cyfwelir aelodau'r rhestr fer ym mis Medi, lle dewisir y chwe deg o fyfyrwyr terfynol.

## CYFWELIADAU MYNEDIAD

Trwy ein diwrnodau cyfweiliad cychwynnol, a gynhelir fel arfer yn nhymor y gwanwyn, gallwn siarad â phob ymgeisydd ar lefel unigol. Mae hyn yn ein galluogi ni i asesu anghenion penodol pob myfyriwr, trafod llwybrau gyrfa a ddymunir, a sicrhau bod pecyn y cwrs wedi'i deilwra i'r myfyriwr. Yn ystod y cyfnod hwn, mae ein swyddogion derbyn yn chwilio am fyfyrwyr sy'n credu bod ganddynt y gallu a'r gallu mwyaf academiaidd; pwy fydd y mwyaf addas ar gyfer elfennau trylwyr y Rhaglen Anrhydedd; a chael y gallu profedig i ymgymryd â her academiaidd gyda diddordeb ac ymrwymiad gwirioneddol.



# CYSYLLTWCH Â NI

---

Coleg Catholig Dewi Sant  
Heol Ty Gwyn  
Penylan  
Caerdydd, CF23 5QD

**Ffôn:** 02920 498 555

**E-bost:** [honours@colegdewisant.ac.uk](mailto:honours@colegdewisant.ac.uk)

**Gwe:** [www.colegdewisant.ac.uk](http://www.colegdewisant.ac.uk)